

# Rhoi sylw dyledus? I ba raddau y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd ei gyfrifoldebau o ddifrif o dan Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

[View this post in English | Darllenwch yr erthygl yma yn Saesneg](#)

18/07/17

Mae gan blant a phobl ifanc hyd at 18 mlwydd oed amrywiaeth o hawliau wedi'u nodi yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (y Confensiwn), gan gynnwys hawliau i gael eu hamddiffyn, i iechyd, i deulu, i addysg, i ddiwylliant ac i hamdden (gweler [crynodeb o erthyglau](#)) (PDF 73.8KB).

Mae'r Confensiwn yn nodi'r hyn y mae'n rhaid i lywodraethau, awdurdodau cyhoeddus ac oedolion ei wneud i alluogi plant i fwynhau eu holl hawliau. Cadarnhaodd y DU y Confensiwn ym 1991 a mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru y Confensiwn yn unfrydol fel sail ar gyfer gwneud polisi ar gyfer plant ym mis Ionawr 2004.

Mewn [datganiad ysgrifenedig ar 12 Gorffennaf 2017](#) ailbwysleisiodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i roi hawliau plant yn ganolog i'w pholisïau, mewn ymateb i [Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig](#). Mae'r ymateb wedi cael ei groesawu gan [Gomisiynydd Plant Cymru a Grŵp Monitro'r Confensiwn yng Nghymru](#), gan hefyd atgyfnerthu'r angen am fwy o frys os bydd argymhellion y Pwyllgor yn cael eu gweithredu'n llawn yn ôl y bwriad.

## **Sylw dyledus i'r Confensiwn**

Nid yw'r DU wedi ymgorffori'r rhan fwyaf o ddarpariaethau'r Confensiwn yn y gyfraith ddomestig, ac ni all unigolion yn gyffredinol ddibynnu arno yn uniongyrchol yn y llysoedd yma. Rhoddodd [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#) ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r hawliau yn y Confensiwn wrth wneud penderfyniadau, polisïau a chyfreithiau. Fodd bynnag, nid yw'r dyletswyddau hyn yn rhoi'r hawl i bob plentyn geisio cymorth uniongyrchol yn y llysoedd os yw eu hawliau unigol yn cael eu treisio gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau iddynt.



[Argymhellodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ddiweddar \(PDF 1.86MB\)](#) y dylai Llywodraeth Cymru gynnwys y Confensiwn yn uniongyrchol mewn cyfraith ddomestig trwy osod dyletswydd ar gyrff perthnasol i roi sylw dyledus i'r Confensiwn o dan y [Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg \(Cymru\)](#). Mae hyn eisoes yn wir gyda chyrrff cyhoeddus perthnasol sy'n arfer swyddogaethau o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#).



Yn 2012, [comisiynodd UNICEF UK Brifysgol y Frenhines yn Belfast \(PDF 6.07MB\)](#) i astudio gwledydd lle cafodd y Confensiwn ei ymgorffori yn llawn (Gwlad Belg, Norwy, Sbaen). Er bod ymgorffori yn golygu bod y **Confensiwn yn rhan lawn o'r system gyfreithiol ddomestig**, ei brif werth oedd y neges glir yr oedd yn ei chyfleu ynghylch **statws plant a hawliau plant, ac effeithiau cynyddol hyn ar wneud egwyddorion hawliau plant yn rhan o gyfraith a pholisi domestig**.

Mae [papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin](#) hwn o fis Tachwedd 2016 (PDF 639KB) yn cynnwys rhagor o fanylion am gydymffurfiaeth gyfreithiol â'r Confensiwn.

## **Barn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau plant yng Nghymru**

Cyhoeddodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig, panel rhyngwladol o arbenigwyr a sefydlwyd ym 1991 i graffu ar gofnodion y Llywodraeth ar hawliau plant, [ei ganfyddiadau](#) (PDF 286KB) o'i archwiliad diweddar o'r DU a llywodraethau datganoledig yn ystod mis Gorffennaf 2016. Mae'r Sylwadau Cloi hyn yn tynnu sylw at agweddau cadarnhaol a negyddol allweddol o ran y modd y mae'r DU yn rhoi'r Confensiwn ar waith a gwnaeth dros 150 o argymhellion ar gamau y dylai llywodraethau'r DU eu cymryd i hyrwyddo hawliau plant. [Gweler ein blog yn 2016 i gael crynodeb o'r argymhellion fel y'u cymhwysir i Gymru.](#)



Y broses adrodd yn 2016 oedd y tro cyntaf i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig gael y cyfle i werthuso cofnod Cymru ar ôl rhoi *Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011* ar waith.

Er nad yw Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig yn gallu gorfodi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i newid eu cyfreithiau, eu polisiau a'u harferion, y disgwyliad yw y bydd y ddwy Lywodraeth yn cymryd canfyddiadau'r Pwyllgor o ddifrif ac yn ymateb iddynt yn gyflym ac mewn modd ystyrlon, yn enwedig o ystyried cyfraniad gwerthfawr plant a phobl ifanc at y broses adrodd.

Mae rhagor o wybodaeth am broses adrodd y Cenhedloedd Unedig ar gael [yma](#).

## Effaith Brexit ar Hawliau Plant yng Nghymru

Mae [Eurochild](#) a phum rhwydwaith partner cenedlaethol, yn cynnwys [Plant yng Nghymru](#), yn cefnogi dull o wrando ar blant a phobl ifanc fel rhan o'r broses negodi ar gyfer Brexit; ac maent yn ceisio sicrwydd na fydd unrhyw gamu'n ôl o ran hawliau presennol plant a phobl ifanc yn y DU ac ledled yr UE.

Amlygodd y Cenhedloedd Unedig effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd yn ystod yr [Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol](#), sef dull adolygu unigryw y Cenhedloedd Unedig sy'n craffu ar wladwriaethau o ran y cynnydd a wnaed wrth weithredu eu rhwymedigaethau o dan gytundebau hawliau dynol. Ar 8 Mai 2017, cyhoeddwyd yr adroddiad o'r adolygiad a gellir ei weld [yma](#).

Roedd argymhellion yr Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol yn gofyn am sicrwydd y DU na fydd unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol yn y dyfodol yn gwanhau'r elfen amddiffyn hawliau dynol, a bod cyflawniadau hawliau dynol yn cael eu cadw yng nghyd-destun ymadael â'r UE.

Daw'r argymhellion hyn ar adeg pan fo'r DU wedi cael ei gynnwys ymhlith y 10 perfformiwr gwaethaf ym maes gwella hawliau'r plentyn, a hynny ar ôl iddo ennill y sgôr isaf posibl ar draws pob un o'r chwe dangosydd sydd ar gael yn y maes Amgylchedd Hawliau'r Plentyn, yn ôl y [Mynegai KidsRights 2017\[1\]](#).

Bydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn cyfarfod ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ddydd Iau 20 Gorffennaf 2017 i archwilio ymhellach yr



ymrwymiad y nododd Llywodraeth Cymru i hawliau plant. Gwylwch y trafodion yma ar [Senedd TV](#).

[1] Mae'r Mynegai, sy'n casglu data gan UNICEF a Phwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn i nodi tueddiadau cyffredinol yn y maes amddiffyn hawliau plant, yn nodi'r graddau y mae gwlad wedi gweithredu egwyddorion cyffredinol y Confensiwn ac y ceir seilwaith sylfaenol ar gyfer gwneud a gweithredu polisiau hawliau plant. Mae methodoleg y Mynegai yn golygu na ellir gwneud iawn am berfformiadau gwael iawn mewn un maes gan sgoriau uwch mewn meysydd eraill, oherwydd ystyrir bod holl hawliau plant yr un mor bwysig.

---

Erthygl gan [Hywel Dafydd](#), Gwasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.  
Delwedd o 'The Way Right' gan Huw Aaron. Hawlfraint: Comisiynydd Plant Cymru.

